EGLWYS UNEDIG GYMRAEG

LLANDUDNO

Y CWLWM

RHIFYN

IONAWR - EBRILL, 2011

Y CWLWM

EGLWYS UNEDIG GYMRAEG LLANDUDNO

IONAWR - EBRILL 2011

" Deuwch ac Addolwn"

IONAWR

	2	Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
	9	Parch R. Ifor Jones, Hen Golwyn
	16	Y Gweinidog
	23	Parch J. Roger Roberts, Llandudno
	30	Parch Eifion Jones, Dinbych

CHWEFROR

	6	Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
1	13	Canon E. Trefor Jones, Llandudno
Y	20	Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon
2	27	Parch Philip Barnett, Deganwy

MAWRTH

	6	Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
1	13	Mr. Allan Phillips, Mochdre
2	20	Y Gweinidog
2	27	Parch J. Roger Roberts, Llandudno

EBRILL

	3	Y Gweinidog
1	10	Parch R. Ifor Jones, Hen Golwyn
1	17	Y Gweinidog
2	24	Parch Dewi Morris, Porthmadog (Cymundeb – Bore)

Croeso cynnes iawn i chi i gyd

CYFARCHIAD

4 Rhiwledyn,
Craigside,
Llandudno

Annwyl Gyfeillion,

Erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r Cwlwm i law fe fydd y Nadolig ar y trothwy. Mae'n debyg y bu y rhan fwyaf ohonom wrthi fel lladd nadroedd yn ceisio cael pob dim yn barod. Mae'r siopau wedi bod yn brysur yn hysbysebu a gwerthu eu nwyddau ers mis Medi, a rhai pobol wedi colli eu pennau yn lân ynglyn â'r rhialtwch. Mae rhai rhieni wedi cynhyrfu yn fwy na'r plant gyda'r hyn yw'r Nadolig bellach yn ein dyddiau ni.

Ni fydd pawb yn edrych ymlaen am y Nadolig, daw hiraeth i rai, ymdeimlad o unigrwydd i eraill, a daw a'i bryder a'i straen i lawer. Er fod y Nadolig i'r mwyafrif yn amser llawen ac yn amser o ddathlu, i rai gall am sawl rheswm fod yn amser anoddaf y flwyddyn. Clywais yn ddiweddar rywun yn dweud y byddai'r dirwasgiad yn dileu y Nadolig iddo ef eleni, hynny yw, na allai fforddio Nadolig fel arferai ei ddathlu. Mae'n siwr bod amgylchiadau y person hwnw yn anoddach ac na fyddai'n gallu fforddio rhai pethau eleni. Ond yr oedd son am ddileu neu ohirio y Nadolig yn dangos meddylfryd ein hoes, sef bod y Nadolig dim ond yn gyfle i wario, bwyta, yfed a mwynhau a dim mwy na hynny. Collwyd gwir ystyr y Nadolig, collwyd " y baban yn y preseb". Fe aeth pobol yn fyddar i'r "newyddion da o lawenydd mawr ". Wrth gwrs y mae arferion a thraddodiadau y Nadolig, yr anrhegion, y bwyd a'r diod, y mwynhau ac yn y blaen yn dod a phleser. Diolch i Dduw am ei holl roddion i ni i'n galluogi i fwynhau a dathlu. Ond os na dderbyniwn mewn ffydd a llawenydd Yr Un a anfonodd Duw y Nadolig cyntaf yn Waredwr y byd, yna ymarfer o hunan foddhad gwag a di-fudd yw unrhyw ddathlu.

Braint yw cael anfon fy nghofion atoch i gyd, gan ddymuno i chwi bob bendith dros yr Wyl. Ar ein rhan i gyd hefyd fe hoffwn anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau at bawb sydd mewn gwendid, gwaeledd neu hiraeth yn ein plith. Boed i chwi oll brofi presenoldeb a bendith Yr Imaniwel (Duw gyda ni) y Nadolig hwn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Gyda chofion a bendith.

Dafydd

Dafydd Rees Roberts

LLOFFION O'R FESTRI

DIACONIAID / BLAENORIAID Y MIS

Ionawr

Evan Wyn Evans	Gwilym Williams	Dyfed Elias
John Lewis Jones	John Arfon Jones	Mai Owen

Chwefror

R. Gwynfor Roberts	Idris Davies	Chris Griffiths
Gwilym C. Williams	Gwyddfid Davies	

Mawrth

Evan Wyn Evans	Gwilym Williams	Dyfed Elias
John Lewis Jones	John Arfon Jones	Mai Owen

Ebrill

R. Gwynfor Roberts	Idris Davies	Chris Griffiths
Gwilym C. Williams	Gwyddfid Davies	

CYMDEITHAS PAWB

Llywydd	Hywel P. Williams
Is-lywydd	Gareth Pritchard
Ysgrifenyddion	Trefor a Beryl Lewis
Trysorydd	Chris Griffiths
Trysorydd Cynorthwyol	Gwyddfid Davies
Cydlynydd Lluniaeth	Glenys Williams

Cyfarfodydd yn Festri Seilo: Dechreuir am 7.00 o'r gloch

10	Ionawr	**Byd y Ddrama**
		Gareth Owen a Hefin Jones, Eglwysbach
24	Ionawr	**Noson o Adloniant Ysgafn**
		Yng ngofal Cymdeithas Colwyn
7	Chwefror	**Celwydd Golau**
		Cadeirydd – Y Parch Dafydd Rees Roberts
21	Chwefror	**Noson yng nghwmni**
		'Hogia'r Berfeddwlad'
4	Mawrth	**Cinio Gŵyl Ddewi** (ynghyd â'r Cymrodorion)
		Gŵr Gwadd: – Dafydd Iwan, Caeathro

DOSBARTH BEIBLAIDD

Bore Mercher am 10.00 o'r gloch (ar yn ail wythnos â Chymdeithas Pawb)

19 Ionawr

2 Chwefror

16 Chwefror

2 Mawrth

16 Mawrth

30 Mawrth

CYFARFOD GWEDDI

Bydd y Cyfarfod Gweddi ar fore Gwener yn ail gychwyn ar y 7 Ionawr, a bydd y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn yn Gyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn Newydd. Dyma gyfle i'r ffyddloniaid a chroeso cynnes hefyd i rai eraill sydd am ddod i gwmniaeth aelodau'r Eglwys.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

SWYDDOGION : Cadeirydd a Thrysorydd – Margaret Griffiths

Ysgrifennydd – Laura Roberts

Agorwyd y tymor ym Mis Medi gyda Bore Coffi a'r elw yn mynd i'r " Methodist Relief Fund " sef " Cronfa Gynnydd a Datblygu" yr Eglwys Fethodistaidd, gan gofio am y trychinebau yn Pacistan ar y pryd.

Ym misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr bu pawb yn gefnogol a hael iawn tuag at y boreuau Coffi, a chyfranwyd dros £ 800 i gronfa'r Gymdeithas – gan gyfrannu at gael ffenest newydd yn nenfwd y gegin.

Cafwyd dwy sgwrs ddiddorol iawn hefyd yn ystod y tymor. Daeth Ifor Puw Williams atom ym Mis Hydref i son am ei daith i Oberamergau yn yr haf, ac ym Mis Tachwedd daeth Vincent Lloyd Hughes atom. 'Roedd ganddo nifer fawr o hen ddogfennau o'i gartref a'i gapel lle'i magwyd ym Mlaenau Ffestiniog

Mae dyled yr Eglwys yn fawr i Gymdeithas y Chwiorydd am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gynorthwyo a chefnogi gwaith yr Eglwys trwy'r flwyddyn.

YR YSGOL SUL

Fel y gwyddoch yr ydym yng nghanol tymor eitha prysur yn hanes yr Ysgol Sul. Bu'r Gwasanaeth Diolchgarwch yn fendith i ni i gyd, a'r plant wedi gwneud eu gwaith yn ganmoladwy iawn. Diolch i Dafydd am fynd a ni ar drywydd tra gwahanol y tro hwn. Ffrwythau'r Ysbryd Glan oedd y thema, ac 'roedd yr emyn hyfryd a gyfansoddodd Beryl Lewis Jones ar ein cyfer yn gymaint o help i egluro yr ystyr ar gyfer y plant, ac yn ddiweddglo bendigedig i'r gwasanaeth.

Bu'r gynulleidfa yn hael iawn eleni eto, a chasglwyd £356 i hyrwyddo addysg bellach Julius. Dewisodd y plant roi eu casgliad hwy, sef £ 205 i blant bach Watoto. Mae'n amlwg fod ymweliad y Côr Plant o Watoto ddwy flynedd yn ôl wedi gadael ei argraff ar ein plant.

Ar derfyn yr oedfa daeth Adam Price a'i rieni i gyfarfod y plant ac i dderbyn siec am £661 – a gasglwyd gan yr Eglwys ar gyfer Adam sydd yn dioddef o Leukemia.

Mae yn fwriad gan y mamau ifanc gyfarfod yn achlysurol, ac mae Elen Elias am drefnu yn y flwyddyn newydd.



Bore Sadwrn, 13 Tachwedd daeth dros 20 ohonom ynghyd yn athrawon. Rhieni a phlant, i lenwi bocsus Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Bu'n llwyddiant ysgubol. Llwyddwyd i lenwi 80 o focsus . Dros baned cawsom saib i edrych ar DVD oedd yn rhan o'r pecyn gawsom o " Samaritans Purse", yr elusen sydd yn gyfrifol am Apel Plentyn y Nadolig.

Pan fydd Y Cwlwm yn eich cyrraedd, byddwn ynghanol prysurdeb Gwasanaeth y Nadolig , a 'r hwyl sydd ynghlwm ag ef. Mae gennym 33 o blant erbyn hyn yn yr Ysgol Sul. Edrychwn ymlaen at gynulleidfa fawr ar y bore Sul 19 Rhagfyr. Mae'r plant wedi gweithio yn galed trwy'r tymor.

Erbyn hyn mae y rhai hynaf yn cyfarfod yn ystafell y blaenoriaid, ac yn gwneud defnydd o'r cyfrifiaduron i gynhyrchu eu gwaith. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen.

Y CYD-GYNGOR

Bu cryn dipyn o weithgarwch o gwmpas adeiladau'r Capel yn ystod y tri mis diwethaf. Plastrwyd a chwipiwyd y tu allan i'r Ysgoldy, a rhoddwyd landeri newydd yn lle y rhai a ddiflannodd !

Atgyweiriwyd rhai mannau yn y tŷ Capel, gan gynnwys clirio'r cefn a rhoi wyneb newydd i'r cowt yng nghefn y tŷ. Croesawn Gwyneth Gwawr, Llion a Llyr bach i Seilo Villa, a dymunwn y gorau iddynt, wrth i Gwyneth Gwawr ymgymryd â bod yn ofalwr yr Eglwys Unedig.

Gwelsoch i gyd y meicroffonau newydd ar gyfer y seddfawr, ac erbyn hyn hefyd ail-ddodrefnwyd ystafell y diaconiaid/blaenoriaid. Rhoddwyd ffenestr newydd, sydd yn agor, yn nenfwd y gegin , a diolchwn eto i Gymdeithas y Chwiorydd am eu cyfraniad ariannol.

Yn ddiweddar hefyd gosodwyd bleinds ar ffenestri'r galeri, a hyderir y byddant yn cysgodi rhan o'r gynulleidfa sydd ambell fore Sul yn gorfod wynebu'r haul cryf.

Gydag hen adeiladau, mae cynnal a chadw cyson yn wir angenrheidiol.

PWYLLGOR BUGEILIOL



Ceir cyfarfod o'r Pwyllgor Bugeiliol bob dau fis, gan ymdrin â pob agwedd o waith yr Eglwys o wythnos i wythnos. Mae cefnogaeth aelodau'r Pwyllgor yn fawr iawn, ac yn gyfrwng i'n galluogi i fod yn gefn i'n gweinidog yn ei fugeiliaeth yn ein plith. Mae Cofnodion y Pwyllgor Bugeiliol ar gael yng nghyntedd y capel os dymunir bwrw golwg arnynt.

Aelodaeth yr Eglwys Unedig ddiwedd Mis Medi eleni oedd :

Deganwy Avenue	75
Seilo	80
Ebeneser	29
Tabernacl	25

LLONGYFARCHIADAU

Bu un o bobol ifanc yr Eglwys Unedig, sef Siriol Roberts yn hynod lwyddianus mewn Gala Nofio yn Sheffield yn ddiweddar pryd y bu iddi ennill 4 medal aur. Dros y blynyddoedd mae wedi cael llwyddiant mawr mewn gornestau nofio. Llongyfarchiadau Siriol a phob hwyl i'r dyfodol.

DIOLCH AM WASANAETH

Diolch am wasanaeth y llu sydd yn ymdrin â gwahanol agweddau o waith yr Eglwys o wythnos i wythnos :- wrth y drysau – dosbarthu llyfrau a chasglu, dosbarthu y Cwlwm.

Mae nifer dda yn aelodau o'r gwahanol bwyllgorau – Bugeiliol, Y Cyd-Gyngor, Cymdeithas y Chwiorydd, Athrawon a rhieni Yr Ysgol Sul, Cymdeithas Pawb. Mae'r rhain i gyd yn gefn ac yn gymorth i'n Gweinidog, Blaenoriaid/Diaconiaid a swyddogion y gwahanol bwyllgorau.

Diolch hefyd i'r canlynnol am eu gwaith :-

Yr Organyddion: Eirys Hughes, Glenys Williams, John Arfon Jones, Rhys Roberts

Trefnwyr y Blodau: Glenys Williams, Annwen Williams

Y Gofalwr: Gwyneth Gwawr Hughes

Y Trysorydd: Alice Davies

Diolch am bod cyfraniad a chydweithio parod – un Teulu yng Nghrist